## Cynllun Gweithredu(drafft) 2022 – 2027

| | Targed | Yr Angen | Camau Gweithredu | Monitro | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cofrestru gwarchodwyr plant newydd ar draws Gwynedd a chefnogi darparwyr presennol i gynnal o leiaf y lefel presennol o ddarpariaeth. | Mae yna bob amser trosiant uchel o warchodwyr plant oherwydd y natur dros dro o'r swydd, ond mae hyn wedi amlygu fwy yn ystod y pandemig gyda'r cyfanswm o warchodwyr plant wedi lleihau'n sylweddol. | Cyd-weithio gyda PACEY Cymru ar ymgyrch recriwtio a hyrwyddo eang.<br><br>Darparu sesiynau briffio a sesiynau cefnogaeth barhaus drwy'r broses gofrestru.<br><br>Parhau i gynnig cefnogaeth ariannol ar gyfer cwrs hyfforddiant cychwynnol CYPOP5.<br><br>Adolygu telerau a swm y grantiau cychwynnol | 5 o warchodwyr yn cofrestru yn flynyddol.<br><br>Asesu'r rhai sydd yn dadgofrestru a'r rhesymau pam.<br><br>Nifer y gwarchodwyr sydd yn siarad Cymraeg yn cofrestru o'r newydd.<br><br>Nifer sy'n cofrestru ar gwrs cychwynnol CYPOP5. | Parhaus<br><br>(Bydd angen cadw golwg ar y nifer ac adolygu'r targed yn flynyddol ) |
| 2 | Cefnogi lleoliadau i recriwtio a chadw staff gofal plant | Mae llawer o leoliadau yn wynebu heriau sylweddol o ran recriwtio a chadw eu staff. Hyn yn broblem genedlaethol | Cydweithio gydag Adnoddau Dynol Cyngor Gwynedd i ymchwilio mewn i gyfuno swyddi Addysg, Gofal Plant a Gwaith Ieuenctid fel bod oriau / cyflog mwy deniadol i staff ymgeisio.<br><br>Recriwtio prentisiaethau gofal plant gan y Cyngor. | Recriwtio 2 aelod staff newydd bob blwyddyn ar gyfer Meithrinfa'r Cyngor.<br><br>Nifer y darparwyr sydd yn hyrwyddo swyddi gwag ar wefan Gofalwn Cymru.<br><br>Nifer o leoliadau sydd yn gorfod cau oherwydd diffyg staff. | Parhaus |

| | Targed | Yr Angen | Camau Gweithredu | Monitro | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Edrych ar opsiwn sefydlu banc o staff achlysurol gan gydweithio gyda phartneriaid Cwlwm?<br><br>Datblygu teilsen ar Hwb Gwynedd i hyrwyddo gwefannau lle hysbysir swyddi gofal plant fel Gofalwn Cymru.<br><br>Cydweithio gyda'm Partneriaid Cwlwm a Gofalwn Cymru i hyrwyddo'r maes gofal plant fel gyrfa.<br><br>Adolygu fformiwlâu talu'r Cyngor am ofal plant ac addysg fel bod hyn yn annog neu arwain at gynnydd yn y lefel cyflogau. | | |
| 3 | Gofal plant hygyrch sydd ar gael i blant ag anghenion dysgu ychwanegol neu anableddau | Rhai rhieni wedi nodi nad oes gofal plant addas ar gyfer anghenion eu plentyn. | Hyfforddiant perthnasol i ddarparwyr gofal plant y Sir.<br><br>Hyrwyddo'r drefn ADY ar wybodaeth sydd ar gael ar HWB Teuluoedd Gwynedd | Nifer y staff sy'n mynychu hyfforddiant.<br><br>Nifer o blant sydd ddim yn gallu mynychu darpariaeth | Parhaus |
| 4 | Sefydlu darpariaethau gofal plant, chwarae ac | Bylchau yn y ddarpariaeth ym Mhen Llyn (Gorllewinol) a | Cydweithio gyda Partneriaid Cwlwm i adnabod modelau darparu mewn ardaloedd gwledig | Nifer o leoliadau newydd wedi cofrestru gyda AGC | Parhaus |

| | Targed | Yr Angen | Camau Gweithredu | Monitro | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | addysg feithrin newydd | mannau trefol / gwledig eraill<br><br>Bylchau darpariaeth gofal plant Dechrau'n Deg, Addysg Feithrin a'r Cynnig Gofal Plant | Cyflwyno bid Cyfalaf i'r Llywodraeth<br><br>Cynnal proses dendro<br><br>Adnabod grantiau sefydlu e.e. SAS a.y.b<br><br>Asesu genedigaethau yn flynyddol<br><br>Cynnal ymgynghoriadau i ardaloedd penodol | | |
| 5 | Darpariaeth Gwyliau / Cynlluniau Chwarae | Llwyddiant y gweithgaredd Haf o Hwyl a theuluoedd angen gweld parhad.<br><br>Angen darpariaeth mewn ardaloedd difreintiedig ac i blant bregus yn ystod y gwyliau. | Gweithredu argymhellion yr Asesiad Chwarae law yn llaw a'r Asesiad Gofal Plant<br><br>Parhau i ddatblygu a chael mwy o ddarparwyr ar Fframwaith Darparwyr Chwarae Cyngor Gwynedd.<br><br>Cynnig grantiau i ddarparu<br><br>Sicrhau rhaglen o hyfforddiant perthnasol i weithlu gofal plant a chwarae ar gyfer y gwyliau | Niferoedd Cynlluniau Chwarae / Clybiau Gwyliau yn cofrestru o'r newydd.<br><br>Nifer plant bregus yn cael mynediad i weithgareddau yn ystod y gwyliau. | Parhaus |

| | Targed | Yr Angen | Camau Gweithredu | Monitro | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Cynaliadwyedd busnes | Maint ac addasrwydd adeiladau<br><br>Pwyllgorau ansefydlog<br><br>Nifer o ddarpariaethau bregus yn ariannol a heb gynlluniau busnes | Parhau i wneud cais am gyllid cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i wella adeiladau ac amgylcheddau darparwyr gofal plant i sicrhau eu bod yn addas at y diben, wrth i gyfleoedd ddod ar gael.<br><br>Gweithio gyda sefydliadau CWLWM i sicrhau bod lleoliadau sy'n cael eu rhedeg gan bwyllgorau gwirfoddol yn cyflawni statws Sefydliad Corfforedig Elusennol cyn gynted â phosibl.<br><br>Adolygu fformiwlâu talu'r Cyngor am ofal plant ac addysg fel bod hyn yn annog neu arwain at gynnydd yn y lefel cyflogau<br><br>Cyd-weithio Rhanbarthol ar Draws Ffurfio'r Blynyddoedd Cynnar.<br><br>Gosod prydlesi teg i ddarparwyr ar safleoedd y Cyngor. | Nifer y lleoliadau sydd yn ymgeisio am gyllid grant cynaladwyedd<br><br>Nifer o leoliadau gyda Chynllun Busnes cadarn mewn lle.<br><br>Nifer y lleoliadau sydd yn cau oherwydd diffyg cyllideb ddigonol. | Parhaus. |
| 7 | Hyrwyddo'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd | Fforddiadwyedd ydi'r prif rwystr mae rhieni yn nodi i gael mynediad i ofal plant | Mae'r GGD wedi creu taflen sydd yn crynhoi'r cynlluniau cefnogi gyda chostau gofal plant. | GGD i adrodd yn chwarterol ar weithgareddau hyrwyddo. | Parhaus |

| | Targed | Yr Angen | Camau Gweithredu | Monitro | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | (GGD) a hysbysebu'r cymorth ariannol sydd ar gael i gynorthwyo gyda chost gofal plant. | Mae llawer o gynlluniau ar gael i gefnogi gyda chost gofal plant.<br><br>Angen sicrhau bod bob lleoliad gofal plant yn cofrestru i ddarparu'r Cynnig Gofal Plant a chofrestru i gael statws 'Gofal Plant Di-dreth' (Tax Free Childcare) | Angen gweithredu ar argymhellion yr adroddiad ymgynghori ddiweddar i hyrwyddo'r wybodaeth sydd ar gael.<br>Hyrwyddo'r cynlluniau sydd ar gael gyda'r darparwyr gofal plant a'i annog i gofrestru.<br><br>Sefydlu systemau cofrestru mwy hygyrch i deuluoedd. | Nifer yn defnyddio'r 'HWB Teuluoedd'<br><br>Nifer dilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol<br><br>Nifer o deuluoedd yn cofrestru am ofal plant<br><br>Nifer ymholiadau am gymorth | |
| 8 | Angen ddechrau cynllunio'n strategol i gyflwyno'r cynnig gofal plant rhan-amser a ariennir ar gyfer pob plentyn 2 oed fel rhan o ehangu Dechrau'n Deg (Haf 2022). | Bydd ymestyn cynnig Dechrau'n Deg yn cynyddu'r galw am ofal plant i blant 2 oed.<br><br>Addasrwydd gofal plant presennol i ddarparu i blant 2 oed hefyd e.e. Cylchoedd Meithrin | Adolygu'r lleoedd gofal plant ar gael i ateb y galw cynyddol a ragwelir.<br><br>Cydweithio gyda Phartneriaid Cwlwm i adnabod modelau darparu mewn ardaloedd gwledig.<br><br>Adnabod ardaloedd y bydd angen cefnogaeth cyfalaf ar gyfer darpariaethau newydd, neu i ymestyn darpariaeth bresennol i gwrdd ar angen.<br><br>Trafodaethau gydag Addysg - posibiliadau gofal plant 2 oed ar safleoedd ysgol | Nifer o lefydd gofal plant sydd ar gael i ddiwallu'r angen.<br><br>Prosesau tendro llwyddiannus.<br><br>Nifer adeiladau newydd/addasiadau newydd llwyddiannus. | Yn ddibynnol ar amserlen ymestyn y Llywodraeth. |

| | Targed | Yr Angen | Camau Gweithredu | Monitro | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | Sefydlu system daliadau i ddarparwyr.<br><br>Creu system gofrestru hygyrch i deuluoedd.<br><br>Tendro am wasanaethau gofal plant | | |
| 9 | Monitro argaeledd a chyflenwad lleoedd gofal plant 3 a 4 blwydd oed ar draws y Sir i alluogi ymestyn y Cynnig Gofal Plant i rieni ar absenoldeb mabwysiadu ac mewn addysg bellach a hyfforddiant | Cynnig Gofal Plant yn ymestyn i rieni ychwanegol o Fedi 2022, angen sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gyfer cyfarch y gofyn ychwanegol | Adolygu'r lleoedd gofal plant ar gael i ateb y galw cynyddol a ragwelir. | Nifer y ceisiadau Cynnig Gofal Plant, gan rieni ar absenoldeb mabwysiadu neu mewn addysg bellach a hyfforddiant, sydd yn cael eu cymeradwyo.<br><br>Nifer y rhieni sydd yn nodi nad oes argaeledd ar gyfer eu plentyn. | Ebrill 2022 – Mawrth 2023 |
| 10 | Cefnogi lleoliadau gofal plant i symud drosodd i'r sustem ddigidol newydd ar gyfer y | Llywodraeth Cymru yn datblygu sustem ddigidol newydd cenedlaethol ar | Sicrhau adborth cynhwysfawr o'r prawf byw.<br><br>Hyfforddi darparwyr i gofrestru a defnyddio'r sustem newydd. | Nifer y darparwyr sydd yn cofrestru.<br><br>Nifer ymholiadau am gefnogaeth. | Mehefin – Tachwedd 2022 ar gyfer cofrestru darparwyr.<br>Parhaus ar gyfer cefnogaeth.<br><br>Parhaus o ran cefnogaeth i rieni |

| | Targed | Yr Angen | Camau Gweithredu | Monitro | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cynnig Gofal Plant. | gyfer y Cynnig Gofal Plant.<br><br>Cyngor Gwynedd yn un o'r 2 awdurdod cyflawni sydd yn cynnal y prawf byw o'r sustem newydd | Cefnogi rhieni gyda'r broses ymgeisio.<br><br>GGD yn hyrwyddo'r sustem newydd a pa gefnogaeth sydd ar gael.<br><br>Cynnig grant TG i leoliadau heb gyfarpar addas . | | |
| 11 | Trefnu rhaglen hyfforddiant i weithlu gofal plant sydd ar gael yn rhwydd i archebu lle ac o ran yr amseroedd mae'r cyrsiau yn cael eu cynnal. | Niferoedd yn isel os nad yw'r hyfforddwr yn cynnal sesiynau gyda'r nos ac ar benwythnosau.<br><br>Mynediad rhwydd i gofrestru ar gyrsiau hyfforddiant.<br><br>Angen cyrraedd gofynion statudol.<br><br>Gofynion newydd y Cwricwlwm i Gymru | Cynnal hyfforddiant rhithiol wedi recordio, ble mae angen.<br><br>Angen creu sustem hygyrch i leoliadau archebu lle ar hyfforddiant. Angen cydweithio gydag Uned TG y Cyngor i ddatblygu system ar-lein newydd.<br><br>Gynnig grantiau i archebu offer TG i unrhyw ddarpariaeth newydd.<br><br>Cadw cofrestr hyfforddiant staff a chynnal digon o hyfforddiant i gwrdd y galw fel bod modd cyrraedd gofynion AGC. | Sustem ar-lein i archebu cyrsiau hyfforddiant mewn lle.<br><br>Nifer o grantiau TG sydd yn cael eu cymeradwyo.<br><br>Niferoedd sydd yn cofrestru a mynychu cyrsiau. | Parhaus. |
| 12 | Dechrau'n Deg Lefelau staffio cymwys i gyfarch | Sicrhau fod swyddogion newydd yn cael y cyfle i | Cydweithio efo Mudiad Meithrin a phwyllgorau lleoliadau i sicrhau | Bydd athrawon DD a Swyddog monitro'r cynllun yn monitro cynnydd yn | Parhaus |

| | Targed | Yr Angen | Camau Gweithredu | Monitro | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | y gofynion Cymwysterau gofynnol o cymhorthyddïon lefel 3 ac arweinyddion ar lefel 4/5 | dderbyn hyfforddiant, perthnasol.<br><br>Annog i leoliadau i gefnogi swyddogion i symud ymlaen i ddilyn cyrsiau ehangach. | fod swyddogion yn cael cefnogaeth i ddilyn cyrsiau. | dymhorol, gan adnabod unrhyw rwystrau. | |
| 13 | Cynyddu presenoldeb plant sy’n cael eu hariannu mewn lleoliadau gofal plant gan y Cyngor. (Addysg Feithrin / Dechrau’n Deg/ Cynnig Gofal Plant) | Cynnydd yn y % o blant sydd yn mynychu eu hawliadau gofal plant, fel eu bod yn gallu manteisio yn llawn ar y ddarpariaeth. | Rhaglen waith Swyddog Datblygiad Gofal Plant - datblygu sut y bydd gwybodaeth am y ddarpariaeth gofal plant yn cael ei rannu - datblygiadau rhithiol, Datblygu system i gofrestru plant,<br><br>Gwaith pellach i gynyddu % presenoldeb plant mewn lleoliadau sydd yn dangos lefelau presenoldeb isel parhaus. | Cydweithio’n agos efo’r Tîm canolog – monitro cynnydd y datblygiadau, trafod ac adnabod unrhyw rhwystrau.<br><br>I gynyddu % presenoldeb plant yn lleoliadau gofal plant ac Addysg Feithrin | Parhaus |
| 14 | Angen parhau i fonitro nifer yr achosion o ddatblygiadau tai newydd sydd yn cael eu cwblhau | Gyda phrinder gofal plant mewn rhai ardaloedd a diffyg llefydd digonol mewn rhai trefi poblog, bydd unrhyw ddatblygiadau newydd o bosibl yn cael effaith ar | Mynediad i wybodaeth gyfredol am ddatblygiadau tai<br><br>Bwydo’r wybodaeth i gynlluniau gweithredu blynyddol. | Cyfarfodydd blynyddol gyda Swyddogion Adrannau Cynllunio'r Cyngor a’r Parc Cenedlaethol. | Blynyddol |

| | Targed | Yr Angen | Camau Gweithredu | Monitro | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | nifer y lleoedd gofal plant sydd eu hangen. | | | |
| 15 | Sicrhau darpariaeth Iaith Gymraeg /Dwyieithog i holl blant y Sir | Parhau i gynnal lleoliadau cyfrwng Cymraeg er yr her i recriwtio staff rhugl.<br><br>Annog lleoliadau gofal plant, sydd wedi dynodi yn uniaith Saesneg, i gyfarch gofynion y 'Cynnig Gweithredol' | Cynnig grantiau cychwynnol i leoliadau newydd sy'n darparu yn y Gymraeg / Dwyieithog<br><br>Annog Partneriaid Cwlwm i sicrhau penodiadau staff rhugl Cymraeg.<br><br>Hyrwyddo cyrsiau hyfforddiant Camau [Camau \| Learn Welsh]<br><br>Gweithredu ar argymhellion y CYSGA<br><br>Comisiynu darpariaeth Cymraeg ar gyfer plant 2 oed. | Nifer staff gofal plant Cymraeg / Dwyieithog<br><br>Nifer darpariaethau Cymraeg / Dwyieithog<br><br>Nifer y lleoliadau sydd wedi nodi gan AGC yn darparu'r 'Cynnig Gweithredol' *(Active Offer)* ar eu Adroddiadau Arolygu | Parhaus |
| 16 | Sicrhau darpariaeth gofal plant o'r ansawdd uchaf ar gyfer holl blant y Sir | Diffyg ymweliadau yn ystod y Cyfnod clo gan Partneriaid Cwlwm, AGC, Estyn a swyddogion Cyngor Gwynedd<br><br>Bron i 10% o ymatebion i'r holiadur rhieni yn anghytuno bod safon | Cynnal asesiadau ITERS / SSTEW<br><br>Sgôr RAG ar gyfer darpariaethau gofal plant<br><br>Dilyn camau gweithredu ôl arolwg AGC neu Estyn | Sgoriau o 5 neu uwch<br><br>% y lleoliadau gyda statws gwyrdd<br><br>Sgoriau ansawdd AGC / Estyn. | Parhaus |

| | Targed | Yr Angen | Camau Gweithredu | Monitro | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | darpariaeth gofal plant yn uchel. | Cynnig hyfforddiant a chefnogaeth berthnasol i godi safonau<br><br>Annog darpariaethau  i fynd am achrediad ansawdd.<br><br>Cynnig cefnogaeth ymweld â darpariaeth safonol, mentora darpariaeth lle mae angen gwelliant. | | |
| 17 | Gweithredu Cwricwlwm i Gymru | Y Cwricwlwm yn dod yn weithredol Medi 2022 | Hyfforddi a chefnogi lleoliadau nas cynhelir i gyfarch y cwricwlwm.<br><br>Hyfforddiant i leoliadau sydd ddim yn cael eu hariannu, er mwyn rannu ethos y Cwricwlwm. | Bob lleoliad Addysg wedi derbyn hyfforddiant ac yn gweithredu | Medi 2022 -parhaus. |